# Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

**Teitl y cynnig:** Diwygio Trefniadau Llywodraethu a Chyllido Awdurdodau Tân ac Achub Cymru

**Adran:** Y Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg

**Ysgrifennydd y Cabinet/Y Gweinidog sy'n gyfrifol:** Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol

**Dyddiad Dechrau:** Awst 2025

**Cyfeiriad e-bost cyswllt:** fire@gov.wales

# Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynigion i wella trefniadau llywodraethu a chyllido Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru.

Mae nifer y tanau a'r bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu yn sgil tanau wedi gostwng yn sylweddol ers i'r cyfrifoldeb dros wasanaethau tân ac achub gael ei ddatganoli yn 2004. Mae hyn yn adlewyrchu gwaith y Gwasanaeth Tân ac Achub i atal tanau a hyrwyddo diogelwch tân, gan lwyddo i leihau nifer y tanau glaswellt sy'n cael eu cynnau'n fwriadol. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y duedd honno bellach wedi cyrraedd ei lefel isaf, ac ymddengys fod y Gwasanaeth yn araf wrth fynd i'r afael â phryderon perfformiad ynghylch, er enghraifft, ymatebion i alwadau ffug a chyfyngu tân i'r ystafell lle y dechreuodd. Ar ben hynny, mae nifer mae nifer o arolygiadau a gynhaliwyd gan Brif Gynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru, ac adroddiadau annibynnol ar y diwylliant ym mhob un o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub, wedi nodi pryderon difrifol ynghylch diwylliant, arweinyddiaeth a darpariaeth weithredol gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru.

Mae'r tri Awdurdod yng Nghymru wedi'u llunio ar sail cyfuniadau o'r awdurdodau lleol yn yr ardaloedd maent yn eu gwasanaethu, ond maent yn bodoli ar wahân iddynt. Mae eu haelodau'n cael eu henwebu gan yr awdurdodau hynny, a daw eu holl gyllid bron o ffioedd a godir ar yr un awdurdodau. Nid yw'r trefniadau hyn bellach yn addas yng nghyd-destun y newid yn amgylchiadau'r Gwasanaeth.

Mae'r achos dros newid wedi'i nodi'n fanwl yn y ddogfen ymgynghori. Yn gryno:-

- Nid yw'r aelodaeth wedi'i strwythuro mewn modd sy'n darparu arweinyddiaeth a phroses effeithlon ac effeithiol i wneud penderfyniadau.
- Nid yw Awdurdodau Tân ac Achub yn atebol i unrhyw haen arall o lywodraeth, nac i'r etholwyr, am eu cynlluniau nac am gyflawni'r cynlluniau.
- Nid oes atebolrwydd allanol yng nghyswllt cyllidebau Awdurdodau Tân ac Achub, na chraffu digonol arnynt.
- Nid yw'r broses arolygu bresennol yn cynnwys holl ddyletswyddau a swyddogaethau Awdurdod Tân ac Achub.

Felly, mae'r ymgynghoriad yn edrych ar amrywiaeth o opsiynau i wneud y canlynol:

- Sicrhau sgiliau, arbenigedd ac amrywiaeth ehangach yn aelodaeth yr Awdurdodau Tân ac Achub a gwella arweinyddiaeth a lleihau cymhlethdodau ac oedi wrth wneud penderfyniadau effeithiol.
- Gwella'r gwaith o graffu ar benderfyniadau Awdurdodau Tân ac Achub, gan gynnwys pennu eu cyllidebau.
- Cyflwyno rhaglen arolygu ehangach sy'n rhan annatod o drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd cyffredinol Awdurdodau Tân ac Achub.

Mae angen i'r Gwasanaethau Tân ac Achub sicrhau eu bod yn gallu ymateb i newidiadau hirdymor o ran y risg. Mae newidiadau o'r fath yn deillio, er enghraifft, o ddemograffeg sy'n heneiddio, newid hinsawdd, datblygiadau technolegol, a newidiadau o ran deunyddiau ac arferion adeiladu. Gellir disgwyl y bydd unrhyw un a phob un o'r rhain yn galw am newidiadau o ran hyfforddiant diffoddwyr tân, cyfarpar, a gweithdrefnau ac arferion gwaith. Er mwyn sicrhau hyn, mae angen llywodraethu ac ariannu'r Gwasanaeth mewn ffordd fodern, atebol a chynaliadwy.

Dylid darllen yr asesiad hwn o'r effaith ar y cyd â'r ddogfen ymgynghori – mae'n nodi'r prif resymau pam mae angen diwygio, ac yn archwilio nifer o opsiynau a allai gyflawni hynny yn y tymor byr. Mae'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar y cynigion hynny ar gyfer newid tymor byr a

all sicrhau gwelliannau'n gyflym drwy is-ddeddfwriaeth a newid polisi. Mae'r ymgynghoriad yn gwahodd opsiynau eraill ar gyfer diwygio sy'n amlwg yn bodloni'r meini prawf a ddisgrifir yn y ddogfen ymgynghori.

Byddai rhoi rhai o'r cynigon ar waith yn gofyn am is-ddeddfwriaeth, tra byddai newidiadau eraill mwy radical neu hirdymor yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol. Bydd Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn cael eu paratoi ar gyfer unrhyw ddeddfwriaeth o'r fath.

# Casgliad

## 1. Sut mae'r bobl sydd fwyaf tebygol o deimlo effeithiau'r cynnig wedi bod yn rhan o'r gwaith o'i ddatblygu?

Mae'r cynigion yn effeithio'n bennaf ar Awdurdodau Tân ac Achub Cymru. Rydym wedi ymgysylltu â'r tri Phrif Swyddog Tân, Cadeiryddion yr Awdurdodau Tân ac Achub, y Comisiynwyr, Undebau Llafur perthnasol a rhanddeiliaid allweddol fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wrth ddatblygu'r opsiynau arfaethedig. Gwnaed hynny drwy gyfarfodydd gyda swyddogion a chydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol drwy Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol Cymru.

## 2. Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Mae'r cynigion polisi yn ymwneud â diwygio'r trefniadau llywodraethu a chyllido presennol ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub Cymru, ac felly nid ydynt yn effeithio ar unrhyw grwpiau penodol o bobl gan gynnwys plant, siaradwyr Cymraeg na'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Cynhaliwyd Asesiadau llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg, ac ni chodwyd unrhyw faterion.

Nid yw'r Asesiad Effaith Integredig wedi codi unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â llesiant cymdeithasol pobl a chymunedau yng Nghymru, na llesiant diwylliannol Cymru na'r Gymraeg. Nid yw chwaith wedi codi unrhyw faterion yn ymwneud â llesiant economaidd busnesau a'r cyhoedd, yr Amgylchedd, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn na'r agenda Trechu Tlodi.

Nid yw'r cynigion polisi fel maen nhw wedi'u nodi yn y ddogfen ymgynghori yn cael unrhyw effaith ar nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol na'r ffyrdd o weithio ar y cam hwn. Serch hynny, maen nhw wedi cael eu datblygu yn unol â'r pum ffordd o weithio sydd wedi'u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Byddwn yn parhau i adolygu'r Asesiad Effaith Integredig fel rhan o'r broses barhaus o ddatblygu cynigion manylach.

## 3. Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:

- **yn cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Nid oes unrhyw effeithiau wedi'u nodi.

## 4. Sut bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth i'r cynnig ddatblygu, ac ar ôl iddo ddod i ben?

Byddwn yn parhau i adolygu'r asesiad effaith integredig fel rhan o'r broses o ystyried yr ymateb

i'r ymgynghoriad, a'r cynlluniau gweithredu manylach a fydd yn deillio o hynny.

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron 2018 WG52625